

WFAC 21/02/02

I'w drafod

Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru – Adroddiad y Cadeirydd

Crynodeb Gweithredol

1. Mae'r adroddiad atodedig yn grynodeb byr o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod polisi'r Bwrdd ar 2 Rhagfyr a chyfarfod Pwyllgor Busnes y Bwrdd ar 8 Rhagfyr a materion trafod allweddol yn ymwneud â chylch gwaith yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yng Nghymru.
2. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i:
 - **nodi** trafodaethau'r Bwrdd;
 - **gwahodd** y Cadeirydd i ymhelaethu ar unrhyw faterion i'w trafod ymhellach.

Cysylltwch â: Lucy Boruk

Lucy.Boruk@food.gov.uk

WFAC 21/02/02

I'w drafod

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor – Chwefror 2021

1. Cyfarfodydd y Bwrdd

1.1 Cynhaliwyd cyfarfod polisi diwethaf y Bwrdd ar 2 Rhagfyr. Cynhaliodd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (y Pwyllgor) gyfarfod ar 26 Tachwedd i gytuno ar ei gyngor ar y papurau a oedd yn cael eu hystyried. Adlewyrchais gyngor y Pwyllgor yn nhrafodaethau'r Bwrdd ar y ddau bapur polisi canlynol:

- **Diweddariad ar Raglen Bontio'r Undeb Ewropeaidd (UE) (Papur FSA 20/12/03)**

<https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-20-12-03-fsa-eu-transition-programme-update-final.pdf>

Roedd y papur yn diweddarau ar y cynnydd a wnaed ar Raglen Bontio'r UE er mis Mehefin 2020 ac ar y sefyllfa bresennol a pharodrwydd ym mis olaf y cyfnod pontio. Ymhellach, amlinellodd y papur y prif feysydd ffocws wrth i ni weithredu ein ffrydiau gwaith a'n gweithgareddau diwedd Cyfnod Pontio a symud i fusnes fel arfer yn 2021. Yn ogystal, roedd y papur yn diweddarau Bwrdd yr ASB ar y cynigion ar gyfer y fframwaith ynghylch safonau cyfansoddiad a labelu bwyd.

- **Diweddariad ar y Rhaglen Gorsensitifrwydd i Fwyd (Papur FSA 20/12/04)**

<https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/fsa-20-12-04-food-hypersensitivity-programme-update-final.pdf>

Roedd y papur yn diweddarau'r Bwrdd ar gynnydd Strategaeth Gorsensitifrwydd i Fwyd yr ASB. Roedd yn nodi'r dulliau arfaethedig o symud ymlaen â'r gwaith ar gynllun Diogelwch Alergedd Bwyd ac ar Labelu Alergenau Rhagofalus. Fe wnaeth y papur hefyd ddiweddarau'r Bwrdd ar gynnydd mewn nifer o feysydd gwaith allweddol cysylltiedig:

- Bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.
- Ymgyrchoedd cyfathrebu.
- E-hyfforddiant alergeddau ac anoddefiadau bwyd.
- Mecanwaith adrodd adwaith alergaidd bwyd.
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid.
- Ymchwil a thystiolaeth.

1.2 Dyma ddolen i'r fideo o drafodion llawn cyfarfod 2 Rhagfyr:

<https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-board-meeting-december-2020>. Bydd

cofnodion y cyfarfod, pan fyddant ar gael, yn cael eu cyhoeddi ar:

<https://www.food.gov.uk/about-us/our-board#meetings>.

1.3 Cyfarfu'r Bwrdd nesaf ar 8 Rhagfyr am gyfarfod busnes. Ymhlith yr eitemau ar yr agenda oedd yr ail adroddiad chwarterol ar Berfformiad ac Adnoddau, Cyflawniad a Pherfformiad awdurdodau lleol a diweddariad blynyddol gan yr Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd. Mae copïau o'r papurau a ystyriwyd a chofnod o'r

trafodion llawn ar gael drwy <https://www.food.gov.uk/about-us/fsa-business-committee-meeting-december-2020> (Saesneg yn unig)

1.4 Ar 19 Ionawr, roeddwn i'n bresennol yng nghyfarfod Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Bwrdd (ARAC), ac yna yn Niwrnod Cwrdd i Ffwrdd y Bwrdd. Aeth yr ARAC ati i ddechrau ystyried y Cynlluniau Sicrwydd Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22. Cynhaliodd y Bwrdd Weithdy Risg blynyddol ac Adolygiad Blaenoriaethau Strategol ynghyd â chynllunio busnes, ac yna cafodd ddiweddariadau ar Gyfnod Pontio'r UE ac ar faterion masnach.

1.5 Fel nodwedd newydd i weddu i weithrediad ar-lein y Bwrdd, er mwyn osgoi cyfarfodydd un sesiwn hir, cyflwynwyd cyfarfodydd KIT 1 awr (un pwnc yn bennaf). Fe wnes i gymryd rhan mewn sesiwn o'r fath ar 28 Ionawr, lle cyflwynodd y Cadeirydd yng Ngogledd Iwerddon a minnau adroddiadau ar y prosesau recriwtio i'n Pwyllgorau Cynghori priodol. Yna rhannwyd adroddiad ar faterion cyflawni gwaith â'r grŵp a buom yn myfyrio ar oblygiadau materion pontio unigryw'r UE yng Ngogledd Iwerddon.

1.6 Rwy'n ddiolchgar i Heather Hancock (Cadeirydd y Bwrdd) ac Emily Miles (Prif Weithredwr) am gyfarfodydd 1:1 defnyddiol iawn. Yn y fformat ar-lein hwnnw, cwrddais â Heather ar 14 Rhagfyr ac Emily ar 29 Ionawr.

2. Materion eraill

2.1 Ar 9 Rhagfyr, fe wnes i a Heather Hancock, ynghyd â Nathan Barnhouse, gyfarfod ag Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'rGymraeg, yn rhinwedd ei swydd fel y Gweinidog Iechyd yr ydym ni bellach yn adrodd iddo. Roedd yn gyfarfod adeiladol, lle roeddem yn gallu diweddarau'r Gweinidog ar ein gwaith, gan gynnwys y recriwtio a oedd yn cael ei hysbysebu bryd hynny.

2.2 Rwyf wedi cadeirio'r panel a sefydlwyd i adrodd i Eluned Morgan AS, fel y Gweinidog perthnasol, ar yr ymarfer recriwtio penodiadau cyhoeddus ar gyfer pedair swydd ar y Pwyllgor a fydd ar gael o 1 Ebrill 2021. Ymunodd Dr Eleri Davies â mi ar y panel, Microbiologydd Ymgynghorol o Iechyd Cyhoeddus Cymru a Dr Huw Brunt, Prif Swyddog Iechyd a Diogelu'r Amgylchedd Llywodraeth Cymru. Daeth cyfanswm o 23 o geisiadau i law, a chafodd 13 ohonynt eu gwahodd i gyfweiliad. Roedd safon y ceisiadau yn rhagorol. Cynhaliwyd cyfweiliadau ar 20 a 25 Ionawr ac mae adroddiad wrthi'n cael ei baratol i'w ystyried gan y Gweinidog.

2.3 Fel Cadeirydd y Pwyllgor, rwy'n arsylwi ar grŵp Bwyd Diogel, Cynaliadwy a Dilys Cymru (SSAFW). Byddaf yn bresennol yng nghyfarfod SSAFW ar 1 Chwefror ac yn rhoi adroddiad llafar o'r cyfarfod hwn i chi.

Peter Price

Aelod Bwrdd ar gyfer Cymru a Chadeirydd Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru
29 Ionawr 2021